Clybiau Anhraddodiadol: Nosweithiau a Phenwythnosau

Cyflwyniad

Nid yw pob rhiant yn gweithio neu'n hyfforddi 9:00am i 5:00pm, Dydd Llun tan Ddydd Gwener, felly mae eu hanghenion gofal plant yn aml yn syrthio y tu allan i oriau traddodiadol clybiau all-ysgol. Yn y gorffennol y teulu estynedig neu warchodwyr plant fyddai'n ateb anghenion gofal plant gyda'r nos. Y dyddiau hyn, a mwy o neiniau a theidiau'n gweithio, a theuluoedd ar wasgar yn ddaearyddol, a gyda chynnydd yn yr angen am ofal ar gyfer plant hŷn, mae sawl clwb wedi agor i lenwi'r bwlch.

Pwyntiau allweddol i'w hystyried

• **Marchnata** Gwnewch eich gwaith ymchwil yn ofalus i sicrhau bod yna angen. Gwiriwch pa wasanaethau eraill sydd ar gael yn yr ardal ac a yw'n bosibl cysylltu â nhw. Sut fyddech chi'n hyrwyddo'r gwasanaeth?

• **Ariannu** Beth mae rhieni/gofalwyr yn barod i'w dalu am y gwasanaeth? A fedrwch gael gafael ar ffynonellau ariannu eraill?

• **Staff** A fedrwch ddod o hyd i staff sydd ar gael i weithio nosweithiau a phenwythnosau? Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy na'r raddfa arferol.

• **Adeilad** A yw eich adeiladau ar gael yn ystod y nosweithiau ac ar y penwythnosau?

Ysgogodd ceisiadau gan rieni am ofal plant dros y penwythnos y clwb hwn i ymgymryd ag ymchwil i'r farchnad yn lleol. TRoedd dwy feithrinfa ddydd yn yr ardal yn cynnig darpariaeth Sadwrn, ond dim ond ar gyfer plant pum-mlwydd-oed, ac nid yn rheolaidd. Felly sefydlwyd clwb Sadwrn ar gyfer plant 3 i 11 blwydd oed. Y mae ar agor o 9.00 tan 12.30, ond yn gobeithio ymestyn i 5.00 fel y cynydda'r galw. Y nod yw ateb anghenion rhieni sy'n gweithio ar ddydd Sadwrn, a darparu cydbwysedd gwaith/bywyd i rieni sy'n gweithio drwy'r wythnos ac sydd angen amser ar gyfer dyletswyddau eraill.

Caiff y clwb, a leolir mewn canolfan hamdden, ei reoli gan yr un pwyllgor rheoli gwirfoddol (sydd hefyd yn elusen gofrestredig) â'r cylch chwarae, y clwb amlapiol, y clwb ôl-ysgol a'r clwb gwyliau. Fodd bynnag, mae'n ystyried corffori fel cwmni a gyfyngir trwy warant.

Mae wyth aelod o'r staff yn gweithio ar sail rota, â thri ar ddyletswydd bob sesiwn. Daw'r rhain o'r cyflenwad o staff sy'n bodoli'n barod, pob un ohonynt yn gweithio wythnos lawn mewn darpariaethau gofal-plant eraill. Mae'r system rota'n sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael rhai penwythnosau i ffwrdd a bod cyfar digonol ar gyfer adegau salwch a gwyliau.

Mae nifer fawr o bobl yn ei ddefnyddio bob diwrnod, sydd o gymorth wrth ei hysbysebu. Caiff taflenni a phosteri eu harddangos o gwmpas yr adeilad a gosodir taflenni ar bob car yn y maes parcio yn rheolaidd. Mae taflenni a phosteri hefyd wedi eu dosbarthu i lyfrgelloedd, swyddfeydd y cyngor, yr ysgolion o amgylch a chlybiau gwyliau, yn ogystal a thrwy gyfrwng eu rhwydwaith eu hunain o gylchoedd chwarae, clybiau ôl-ysgol a chlybiau gwyliau. Mae'r rheolwr o'r farn fod lleoliad amlwg, canolog o fantais fawr. Mae'r ffioedd ar yr un lefel â'r rheini a godir gan wasanaethau gofal-plant eraill, a hyrwyddir y Credyd Treth Gwaith yn eang i annog pawb sydd â hawl i wneud cais i wneud hynny.

Mae gan y clwb, sy'n hollol hygyrch, ystafelloedd defnydd-penodol yn yr adeilad, gan gynnwys dwy ystafell weithgareddau fawr, toiledau a chyfleusterau cegin. Gall ddefnyddio'r ardal chwarae meddal a'r neuadd chwaraeon yn y ganolfan hamdden, yn ogystal â lle y tu allan, gan gynnwys lleoedd ar gyfer pêl-droed, rygbi a mabolgampau, ynghyd ag ardal chwarae ac ardal werdd i fynd am dro a chael picnic mewn tywydd braf.

Mae'r brecwast a'r byrbryd ganol bore'n cydymffurfio â'u polisi bwyta iach, ac mae ffrwyth ffres ar gael bob diwrnod.

Astudiaeth achos 8

Roedd y diffyg gofal plant ar y Sadyrnau cyn y Nadolig yn broblem i rai rhieni yr oedd eu plant wedi mynychu clwb ôl-ysgol llwyddiannus iawn mewn rhan wledig o Orllewin Cymru. Gofynnodd y rhieni am glwb Sadwrn yn ystod yr amser yn arwain at y Nadolig, gan fod nifer ohonynt yn rhedeg busnesau bychain, a dyma oedd eu hadeg brysuraf o'r flwyddyn.

Treialwyd cynllun peilot ac agorodd y clwb o 8.30yb tan 5.30yh am y tri Sadwrn cyntaf yn Rhagfyr. Dechreuodd ag with o blant yn ei fynychu - gan godi i 16 erbyn y sesiwn olaf. Cynhaliwyd gweithdai arbenigol, gan gynnwys rhai ar grefftau a choginio Nadoligaidd.

Mae'r lleoliad yn eithaf gwledig, er ar y brif ffordd i'r dref.

Roedd recriwtio staff yn her gan nad oedd unrhyw un o staff y clwb am weithio ar y Sadyrnau. Roedd yn rhaid dod o hyd staff eraill ac, mewn rhai achosion, roedd y rheolydd prosiect yn gweithio yn y clwb. Hefyd, o ganlyniad i'r tywydd gaeafol, cynhaliwyd y clwb dan do am gyfran helaeth o'r amser, felly roedd yn rhaid darparu amrywiaeth o weithgareddau fel bod y plant ynglŷn â rhyw weithgaredd drwy'r amser.

Hyrwyddwyd y clwb drwy'r orsaf radio lleol, gwefan radio, y papur newydd a thrwy newyddlen. Mae'r ariannu a fyddai'n caniatáu i'r clwb redeg eto yn bur ansicr, ond gobeithir y bydd mwy o alw gan rieni eraill sydd am wneud eu siopa Nadolig, yn ogystal ag oddi wrth y rhieni hynny sydd yn gorfod gweithio.

Sefydlwyd Clwb Sadwrn ac ar y nosweithiau i blant ag awtistiaeth gan y gyfundrefn elusennol hon, mewn ymateb i geisiadau gan rieni. Mae'r clwb Sadwrn yn rhedeg o 10.00yb tan 2.00yp, gan ddarparu chwarae a hamdden i blant a seibiant i rai rhieni. Mae'r clwb ar agor i bob plentyn, ond hyd yma, dim ond rhieni plant ag anghenion arbennig sydd wedi manteisio arno. Darperir y staff un-i-un gan y clwb, ond telir y ffioedd gan y gwasanaethau cymdeithasol.

Mae'r clwb hwn hefyd yn cynnig dwy sesiwn nosweithiol yr wythnos ar gyfer plant hŷn a phobl ifanc ag anghenion arbennig er mwyn rhoi cyfle iddyn nhw gymdeithasu â phobl o'r un oed â nhw. Mae ar agor o 5.00yh tan 8.00yh.

Sefydlwyd clwb nosweithiol gan goleg addysg bellach. Roedd ar agor ar gyfer plant oed cynradd o 5.30yh i 9.00yh er mwyn cydamseru ag amserau dosbarthiadau nos sy'n rhedeg o 6.00yh i 9.00yh bum noswaith yr wythnos.

Yn aml enwir gofal plant yn rhwystr rhag ymgymryd â hyfforddiant ac addysg nos. Gall fod yn rhwystr yn ogystal rhag recriwtio darlithwyr, felly mae'r clwb nos yn ateb anghenion myfyrwyr a darlithwyr.

Ni chafwyd anhawster i recriwtio staff oherwydd yr oedd nifer ohonynt yn gweithio fel cynorthwywyr ystafell ddosbarth yn ystod y dydd. Darparwyd cyfleusterau rhagorol gan y coleg, gan gynnwys ardal borfa y tu allan i'r clwb, a chyfres o gyfrifiaduron. Felly roedd ystod dda o weithgareddau ar gael bob noson. Penderfynwyd ei bod yn angenrheidiol yn unig i gynnig diodydd yn ystod y sesiwn gan y byddai'r plant eisoes wedi bwyta gartref cyn dod i'r clwb.

Roedd y ffioedd yn rhesymol, ac yn unol â chlybiau ôl-ysgol eraill yn yr ardal. Hefyd, gan fod y clwb wedi ei gofrestru ag AGGCC, gellir cael mynediad i gredyd treth gofal plant gan y rhai hynny sydd â hawl i wneud cais amdano. Yn ôl y coleg, "Mae marchnata ar gyfer y math hwn o gyfleuster yn hanfodol. Mae'n allweddol bwysig hysbysebu'r clwb ar y cyd â'r prosbectwsdosbarthiadau nos fel bod pobl yn gwybod bod cyfleusterau gofal plant ar gael ac y gallant gynllunio yn unol â hwy".